



**Adran y Prif Weithredwr**  
**Chief Executive's Department**  
Swyddfa'r Cyngor  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**Y CYNGOR**  
**THE COUNCIL**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**\*\*1.00PM, DYDD IAU, 26 CHWEFROR 2009**

**\*\*1.00PM, THURSDAY, 26 FEBRUARY 2009**

*(\*\*noder yr amser cychwyn os gwelwch yn dda/please note the start time\*\*)*

Lleoliad / Location

**Siambr Dafydd Orwig**  
**Swyddfa'r Cyngor,**  
**Caernarfon**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eleri Parry**

**(01286) 679601**

**[elerwynparry@gwynedd.gov.uk](mailto:elerwynparry@gwynedd.gov.uk)**

(DOSBARTHUYD/DISTRIBUTED 18/02/09)

**Harry Thomas**  
**Prif Weithredwr / Chief Executive**

[www.gwynedd.gov.uk](http://www.gwynedd.gov.uk)

18 Chwefror/February 2009

Annwyl Gyngorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – 26 CHWEFROR 2009**


**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00PM, DYDD IAU** nesaf, **26 CHWEFROR 2009 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Dear Councillor,

**MEETING OF GWYNEDD COUNCIL – 26 FEBRUARY 2009**

**YOU ARE HEREBY SUMMONED** to attend a meeting of **GWYNEDD COUNCIL** which will be held at **1.00PM** on **THURSDAY** next, **26 FEBRUARY 2009 IN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON** to consider the matters mentioned in the following agenda.

Yr eiddoch yn gywir/Yours faithfully,



Prif Weithredwr/Chief Executive

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-  
The following rooms will be available for the political groups during the morning:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig  
Annibynnol/Independent – Ystafell Gwyrfai  
Llais Gwynedd – Siambr Hywel Dda  
Democratiaid Rhyddfrydol/Liberal Democrats - Ystafell Ogwen  
Llafur/Labour – Cefn Siambr Dafydd Orwig/Rear of Siambr Dafydd Orwig

# RHAGLEN

## 1 GWEDDI

Bydd y Cynghorydd T G Ellis yn agor y cyfarfod gyda gweddi.

## 2 YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 3 COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2008 (tudalennau 1 i 13 o'r gyfrol gofnodion).

## 4 DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

## 6 GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

## 7 MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 8 CWESTIYNAU

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Reol Gweithdrefn 12.

## 9 MATERION I'W PENDERFYNU GAN Y CYNGOR

### BWRDD Y CYNGOR – 17 CHWEFROR, 2009

#### (i) Eitem 5 Cyllideb a Blaenoriaethau'r Cyngor 2009/10

Cyflwyno:-

- (a) Adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol (Adnoddau) ar y strategaeth ariannol a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 17 Chwefror 2009.

Adrodd bod y Bwrdd wedi penderfynu fel a ganlyn:-

**“PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn:-**

- (i) **Bod y lefel risg sydd ynghlwm â'r gyllideb yn parhau'n dderbyniol ac y dylid cymeradwyo'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2009/10 fel y nodir yn rhan 2 o adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol (Adnoddau).**
  - (ii) **Y dylid gostwng lefel yr arbedion y mae disgwyl i ysgolion uwchradd eu cyflawni yn 2009/10 fel y nodir yn rhan 8 o adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol (Adnoddau). I'r diben hwn, penderfynwyd hefyd fod y Bwrdd yn datgan cefnogaeth i'r llythyr a anfonodd y Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion at y Cynulliad yn gresynu at y penderfyniad dirybudd i gwtogi 7% ar gyllidebau addysg ôl-16 ac yn pwysu ar y Cynulliad i anrhydeddu eu hymrwymiad gwreiddiol parthed ariannu'r sector hwn.**
  - (iii) **Argymell cynnydd o 3.94% yn y Dreth Gyngor fydd yn golygu darganfod arbedion o £5.446m i sicrhau cyllideb gytbwys.**
  - (iv) **Cwrdd â'r gofynion unwaith ac am byth o £1.329m trwy ddefnyddio £331,000 o arian Grant Cymell Perfformiad a £998,000 o falansau cyffredinol.**
  - (v) **Defnyddio £860,170 o falansau i bontio'r gwahaniaeth rhwng yr arbedion y byddwn wedi eu darganfod ar gyfer 2009/10 a'r arbedion sydd eu hangen”**
- (b) Adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad ar broses blaenoriaethu adnoddau bidiau refeniw a chyfalaf, a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 17 Chwefror, 2009

Adrodd bod y Bwrdd wedi penderfynu fel a ganlyn:-

**“PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn:-**

- (i) **Cymeradwyo'r bidiau a amlinellwyd yn adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad a chadw'r ddarpariaeth ar gyfer bidiau ar y lefel £1.5m er mwyn medru cyflwyno pecyn o fesurau i gynorthwyo dinasyddion Gwynedd gyda'r dirwasgiad. I'r diben hwn, penderfynwyd hefyd fod y Bwrdd yn sefydlu tasglu**

amblleidiol o aelodau i gasglu gwybodaeth ynglŷn â chamau y gellir eu cymryd i ymateb yn rhagweithiol i'r dirwasgiad.

- (ii) **Cymeradwyo'r bidiau cyfalaf a amlinellwyd yn adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad gan, felly, argymell rhaglen gyfalaf o £11.3m ar gyfer 2009/10, gan beidio â chymeradwyo unrhyw beth pellach hyd oni fydd y Cynllun Rheoli Asedau wedi'i gymeradwyo."**

- (c) Adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad ar berfformiad y Cyngor yn erbyn y targed arbedion a'r cerrig milltir, a osodwyd a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 17 Chwefror, 2009.

Adrodd bod y Bwrdd wedi penderfynu fel a ganlyn:-

**"PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn:-**

- (i) **Cymeradwyo'r arbedion a amlinellwyd yn adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad ar gyfer 2009/10;**
- (ii) **Parhau i bwysu ar y gwasanaethau i gyrraedd eu targedau arbedion ar gyfer 2009/10, gan dderbyn y bydd angen cefnogaeth aelodau ar gyfer gwireddu rhai cynlluniau i arbed. "**

- (ii) **Eitem 6 - Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Datganiad Polisi a Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a Strategaeth Fuddsoddiad Blynnyddol ar gyfer 2009/10.**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 17 Chwefror, 2009.

Adrodd bod y Bwrdd wedi penderfynu fel a ganlyn:-

**"PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn . . .**

- (a) **Addasu un ffigur ar ben yr ail dudalen o Amodiad C, sef yr uchafswm arian a argymhellir ei adnau gyda'r gymdeithas adeiladu 'Nationwide' yn 2009/10, i fod yn £15m.**
- (b) **Fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r Strategaeth Buddsoddi Blynnyddol am 2009/10.**

Penderfynwyd hefyd i fabwysiadu rhai elfennau o'r Strategaeth Arfaethedig am y cyfnod 17/02/09 - 31/03/09, yn ogystal â 2009/10.

(iii) **Eitem 7 - Treth Cyngor: Hawl Disgresiwn I Ganiatáu Disgowntiau**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 17 Chwefror, 2009.

Adrodd bod y Bwrdd wedi penderfynu fel a ganlyn:-

**“PENDERFYNWYD argymhell i'r Cyngor llawn fod Cyngor Gwynedd ar gyfer 2009/2010:-**

- (i) **yn caniatáu DIM disgownt dan Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i'r ddau ddsbarth o ail gartrefi (dosbarthau A a B) sydd wedi'u diffinio yn Rheoliadau Treth Cyngor (Dosbarth o Eiddo Penodedig) (Cymru) 1998**
- (ii) **yn caniatáu DIM disgownt yng nghyswllt tai gwag (dosbarth C, sef eiddo sy'n ddiddeiliad a heb eu dodrefnu ac wedi bod felly am gyfnod o dros 6 mis)”**

**\*\*GOFYNNIR I'R AELODAU DDOD Â'U COPÏAU O ADRODDIADAU (i), (ia) a (ii) UCHOD GYDA HWY I'R CYFARFOD\*\***

***(Os nad oes gennych gopiâu o'r papurau y cyfeirir atynt uchod, ffoniwch y pwynt cyswllt ar flaen y rhaglen hon)***

**10 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y CYNGOR AR GYFER 2009/10**

Cyflwyno dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2009/10. (copi yma - papur **lelog**)

**11 PROSIECT PLEIDLAIStoc Tai – ADRODDIAD YR YMGYNGHORIAD A THENANTIAID Y CYNGOR A PHRYDLESWYR**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Prosiect Pleidlais Stoc Tai. (copi yma – papur **melyn**)

**12 PROSIECT AMGYLCHEDD O ANSAWDD**

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol Amgylchedd. (copi yma – papur **glas**)

**13 RHYBUDDION O GYNNIG**

(A) **Adolygiad o ddarpariaeth Toiledau Cyhoeddus**

- (i) Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrth y Cynghorydd Louise Hughes, o dan Reol Gweithdrefn 13, ac a arwyddwyd gan y nifer

priodol o aelodau, o dan Reol Gweithdrefn 18(1), bydd y Cyngorydd yn cynnig fel a ganlyn:-

**“Cred y Cyngor yma bod y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yn wasanaeth hanfodol ar gyfer y cyhoedd a chydabyddwn y byddai eu cau yn cael effaith ymarferol ar yr henoed, pobol anabl, a theuluoedd ifanc. Hefyd, fod gan y Cyngor ddyletswydd i amddiffyn iechyd a hylendid y cyhoedd. Felly, ble nad oes modd gwneud trefniant arall, bydd y Cyngor hwn yn darparu'r adnoddau angenrheidiol er mwyn cadw'r toiledau cyhoeddus presennol o fewn y Sir ar agor”**

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelodau hefyd yn unol â Rheol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na'i gyfeirio at y pwyllgor perthnasol

- (ii) Adrodd, er gwybodaeth, bod y Cyngor hwn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2008, wedi penderfynu fel a ganlyn:-

#### **PENDERFYNWYD**

##### **(a) Cadarnhau penderfyniad Bwrdd y Cyngor sef**

- (i) Cefnogi'r newidiadau i'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus yn unol ag Atodiad 1 i'r adroddiad, er canfod yr arbedion angenrheidiol ar gyllideb y gwasanaeth;
- (ii) Gofyn i'r Gweithgor symud ymlaen i wneud asesiad cynhwysfawr o holl doiledau cyhoeddus y sir, gan wyntyllu pob posibilrwydd i weithio mewn partneriaeth ar draws y sir, yn ogystal ag edrych ar anghenion lleoliadau strategol, gyda golwg i uwchraddio'r darpariaethau hynny;
- (iii) Gofyn i'r Gweithgor ymchwilio i gynllun y Cynulliad i annog cynghorau i gydweithio gyda busnesau i hwyluso'r defnydd o doiledau cyhoeddus ;
- (iv) Cytuno i'r gweithgor edrych ar faterion pellach i geisio arbedion ar gostau'r gwasanaeth i'r dyfodol.

**(b) Bod y Cyngor yn gofyn i'r Cynulliad ystyried ymestyn ei gynllun sy'n hwyluso cydweithio gyda busnesau i ganiatáu'r cyhoedd ddefnyddio toiledau sydd yn arferol wedi eu darparu ar gyfer cwsmeriaid yn unig, i gynnwys cynghorau cymuned a thref iddynt hwy hefyd fod yn gymwys i dderbyn arian o'r cynllun i'w cynorthwyo i gymryd cyfrifoldeb am doiledau cyhoeddus ac i'w cadw ar agor.**

- (iii) Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol. (copi yma – papur **pinc**)

- (B) Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi o dan Reol Gweithdrefn 13, bydd y Cyngorydd Liz Saville Roberts yn cynnig fel a ganlyn:-

**“Bod Cyngor Gwynedd yn cefnogi trosglwyddo'r pwerau angenrheidiol o San Steffan i'r Cynulliad er mwyn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg a'r Saesneg, rhoi hawliau ieithyddol wrth ddarparu gwasanaethau, a sefydlu swydd Comisiynydd Iaith i amddiffyn yr hawliau hyn”**

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelod hefyd yn unol â Rheol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na'i gyfeirio at y pwyllgor perthnasol.

- (C) Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Reol Gweithdrefn 13, bydd y Cyngorydd Owain Williams yn cynnig fel a ganlyn:-

**“Yn dilyn y cyhoeddiad fod carchar newydd ar gyfer Cymru i'w gael ei leoli yng Nghaernarfon, credaf felly y dylid sefydlu yn ddi-oed 'sustem' neu 'academi' fyddai yn gofalu fod nifer helaeth o'n pobl ddi-waith, ac ieuencid sydd wedi gadael yr ysgol neu ar fin gwneud, yn cael eu hyfforddi mewn sgiliau amrywiol fydd eu hangen gogyfer a'r cannoedd o swyddi a ddaw i'r cylch yn sgil y datblygiad.”**

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelod hefyd yn unol â Rheol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na'i gyfeirio at y pwyllgor perthnasol.

(CH) **Adrodd yn ôl ar rybuddion gynnig blaenorol**

- (i) Cyflwyno, er gwybodaeth, adroddiad y Pennaeth Economi ac Adfywio ar gynnig a fabwysiadwyd gan y Cyngor, ar 31 Gorffennaf 2008, i uwchraddio Rheilffordd Dyffryn Conwy. (copi yma – papur **gwyrdd**).
- (ii) Cyflwyno, er gwybodaeth, adroddiad y Pennaeth Economi ac Adfywio ar gynnig a fabwysiadwyd gan y Cyngor, ar 19 Mehefin 2008, i ddatblygu maes awyr Llanbedr, Meirionnydd fel maes awyr sifil. (copi yma - papur **hufen**)



# **AGENDA**

## **1 PRAYER**

Councillor T G Ellis will open the meeting with a prayer.

## **2 APOLOGIES**

To receive any apologies for absence.

## **3 MINUTES**

The Chairman shall propose that the minutes of the meeting of the Council held on 11 December 2008 be signed as true records (Pages 1 to 13 of the minutes volume).

## **4 DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**

To receive any declaration of personal interest.

## **5 THE CHAIRMAN'S ANNOUNCEMENTS**

To receive any Chairman's announcements.

## **6 CORRESPONDENCE, COMMUNICATIONS OR OTHER BUSINESS**

To receive any correspondence, communications or other business brought forward at the request of the Chairman.

## **7 URGENT BUSINESS**

To note any items which are urgent business in the opinion of the Chairman so they may be considered

## **8 QUESTIONS**

To consider any questions the appropriate notice for which have been given under Procedural Rule 12.

## 9 MATTERS TO BE DECIDED BY THE COUNCIL

### THE BOARD – 17 FEBRUARY, 2009

#### (i) Item 5 – The Council's Budget, Priorities and Savings 2009/2010

To submit:-

- (a) The report of the Strategic Director (Resources) on the financial strategy, submitted to the Council Board on 17 February 2009.

To report that the Board resolved as follows:-

**“RESOLVED to recommend to the full Council:-**

- (i) That the level of risk attached to the budget is still acceptable, and that the proposed budget for 2009/10 as noted in part 2 of the report of the Strategic Director (Resources) should be approved.**
- (ii) The level of savings that secondary schools are expected to achieve in 2009/10, as outlined in part 8 of the report of the Strategic Director (Resources), should be reduced. For this purpose, it was also resolved that the Board should declare its support to the letter sent to the Assembly by the Head of Schools Service, deploring the sudden decision to decrease post-16 education budgets by 7%, and calling upon the Assembly to honour their original commitment in relation to financing this sector.**
- (iii) To recommend a 3.94% increase in the Council Tax, which will entail finding savings of £5.446m to ensure a balanced budget.**
- (iv) To meet the £1.329m one-off requirements by using £331,000 of the Performance Incentive Grant and £998,000 of general balances.**
- (v) To use £860,170 of balances to bridge the difference between the savings we will have identified for 2009/10 and the savings required”**

- (b) The report of the Head of the Policy and Performance Service on the revenue and capital bids resources prioritisation process, submitted to the Council Board on 17 February, 2009

To report that the Board resolved as follows:-

**“RESOLVED to recommend to the full Council:-**

- (i) To approve the bids outlined in the report of the Head of Policy and Performance Service, and to keep the provision for the bids at a level of £1.5m so as to be able to present a package of measures to assist the citizens of Gwynedd with the recession. For this purpose, it was also resolved that the Board should**

**establish a cross-party task force of members to collate information regarding possible actions to respond to the recession proactively.**

- (ii) To approve the capital bids outlined in the report of the Head of Policy and Performance Service, and therefore, recommend a capital programme of £11.3m for 2009/10, and not approve anything further until the Asset Management Plan has been approved”**

- (c) The report of the Head of Policy and Performance Service on the Council's performance against the savings target and the agreed milestones, submitted to the Council Board on 17 February 2009. To report that the Board resolved as follows:-

**“RESOLVED to recommend to the full Council:-**

- (i) To approve the savings outlined in the report of the Head of Policy and Performance for 2009/10;**
- (ii) To continue to put pressure on the services to meet their savings target for 2009/10, accepting that the support of members will be required in order to realise some of the savings plans”**

- (ii) **Item 6 - Treasury Management Strategy Statement, Minimum Revenue Provision Policy Statement and Annual Investment Strategy for 2009/10**

To submit the report of the Head of Finance submitted to the Council Board on 17 February 2009.

To report that the Board resolved as follows:-

**“RESOLVED to recommend to the full Council . . .**

- (a) To revise one figure at the top of the second page of Appendix C, namely the maximum recommended deposit in the Nationwide building society in 2009/10, to £15m.**
- (b) To adopt the Treasury Management Strategy Statement, the Minimum Revenue Provision Strategy and the Annual Investment Strategy for 2009/10”**

Resolved also to adopt some elements of the Proposed Strategy for the period from 17/02/09 to 31/03/09, along with 2009/10.

**(iii) Item 7 – Council Tax: Discretionary Powers to Allow Discounts**

To submit the report of the Head of Finance submitted to the Council Board on 17 February 2009.

To report that the Board resolved as follows:-

**“RESOLVED to recommend to the Full Council that Gwynedd Council, for 2009/10:-**

- (i) allows NO discount under Section 12 of the Local Government Finance Act 1992 to the two classes of second homes (classes A and B) defined in the Council Tax (Prescribed Class of Dwellings) (Wales) Regulations 1998;**
- (ii) allows NO discount in respect of empty properties (class C, that is empty and unfurnished properties, which have been such for a period of over six months)”**

**\*\*MEMBERS ARE REQUESTED TO BRING THEIR COPIES OF REPORTS (i), (ii) and (iii) ABOVE WITH THEM TO THE MEETING.\*\***

***(If you do not have copies of the papers referred to above please telephone the contact point on the front of this agenda)***

**10 DATES OF THE COUNCIL'S MEETINGS FOR 2009/10**

To submit the dates of the Council's meetings for 2009/10. (copy herewith – **lilac** enclosure)

**11 HOUSING STOCK BALLOT PROJECT – REPORT ON CONSULTATION WITH THE COUNCIL'S TENANTS AND LEASEHOLDERS**

To consider the report of the Head of the Housing Stock Ballot Project. (copy herewith – **yellow** enclosure)

**12 A QUALITY ENVIRONMENT PROJECT**

To submit the report of the Strategic Director – Environment. (copy herewith – **blue** enclosure)

**13 NOTICES OF MOTION**

**(A) Review of the Provision of Public Toilets**

- (i) In accordance with the Notice of Motion received from Councillor Louise Hughes under Procedural Rule 13, and signed by the appropriate**

number of members, under Procedural Rule 18(1), the Councillor will propose as follows:-

**“This Council believes that the provision of public toilets is a vital public service and recognises that the closure would have a practical impact on older and disabled people and those with young families. Also, that the Council has a duty to protect public health and hygiene. Therefore, where no alternative arrangements can be made, this Council will provide the necessary resources in order to keep the existing public lavatories throughout the County open”**

The procedural motion was also received from the members in accordance with Procedural Rule 13(12) requesting that the matter be discussed on the day instead of being referred to the relevant committee.

- (ii) To report, for information, that this Council, at its meeting on 11 December 2008, resolved as follows:-

**RESOLVED**

**(a) To confirm the resolution of the Council Board, namely:**

- (i) To support the proposed changes to the public toilets service as shown in Appendix 1 to the report, so as to find the necessary savings on the service’s budget.**
- (ii) To ask the Working Group to proceed to undertake a comprehensive assessment of all public toilets in the county and to consider all possibilities of working in partnership across the county, as well as considering the need for strategic locations, with a view to upgrade those provisions.**
- (iii) To ask the Working Group to investigate the Assembly’s scheme to encourage Councils to work with businesses in order to facilitate the use of public toilets.**
- (iv) To agree for the working group to consider further matters in order to seek savings on the service’s costs in the future.**

**(b) That the Council requests the Assembly to consider extending its scheme which will facilitate collaboration between businesses to allow the public to use toilets usually provided for customers only, and to include town and community councils, so that they are also eligible to receive funding from the scheme to assist them to take responsibility for public toilets and to keep them open.**

- (iii) To submit the report of the Head of Highways and Municipal. (copy herewith – **pink** enclosure)

- (B) In accordance with the notice of motion received under Procedural Rule 13, Councillor Liz Saville Roberts will propose as follows:-

**“That Gwynedd Council supports the transfer from Westminster to the Assembly of the necessary powers to confirm official status for both**

**Welsh and English, linguistic rights in the provision of services and the establishment of the post of Language Commissioner”**

The procedural motion was also received from the member in accordance with Procedural Rule 13(12) requesting that the matter be discussed on the day instead of being referred to the relevant committee.

- (C) In accordance with the notice of motion received under Procedural Rule 13, Councillor Owain Williams will propose as follows:-

**“Following the announcement that the new prison for Wales is to be located in Caernarfon, I believe that a ‘system’ or ‘academy’ should be established forthwith to ensure that a substantial number of our unemployed people and young people who have left school or are about to do so, are trained in the various skills needed for the hundreds of jobs to be created in the area in the wake of the development.”**

The procedural motion was also received from the member in accordance with Procedural Rule 13(12) requesting that the matter be discussed on the day instead of being referred to the relevant committee.

**(CH) Reporting back on previous notices of motion**

- (i) To submit, for information, the report of the Head of Economy and Regeneration, on a motion adopted by the Council, on 31 July 2008, to upgrade the Conwy Valley Line. (copy herewith – **green** enclosure)
- (ii) To submit, for information, the report of the Head of Economy and Regeneration, on a motion adopted by the Council, on 19 June 2008, to develop Llanbedr airport as a civil airport. (copy herewith – **cream** enclosure)